**Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 10 Medi 2018 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Parc Busnes Llanelwy**

YN BRESENNOL
Richard Fairhead, Cymdeithas Arweinwyr Tân - Prospect, yn cynrychioli'r Cyflogwr (Cadeirydd)
Y Cyng. Bryan Apsley, yn cynrychioli'r Cyflogwr
Julie Brown, Pennaeth Cyllid, yn cynghori
Parry Davies, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Jane Honey, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol, yn cynghori
Blythe Roberts, Undeb yr FBU, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Y Cyng. J Rodney Skelland, yn cynrychioli'r Cyflogwr
Alwen Davies, Swyddog Cyswllt Aelodau, yn cofnodi

YMDDIHEURIADAU
Y Cyng. John Brynmor Hughes, yn cynrychioli'r Cyflogwr
Geraint Hughes, Cymdeithas y Swyddogion Tân, yn cynrychioli'r Gweithwyr
Ken Finch, Trysorydd, yn cynrychioli'r Cyflogwr
Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, yn cynrychioli'r Gweithwyr

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2018 eu cymeradwyo'n gofnod cywir, yn amodol ar newid enw cymdeithas y prif swyddogion.

3 MATERION YN CODI

**Cylch Gorchwyl**

Aelodaeth – esboniodd y PSC MacArthur fod rhaid i nifer y rhai sy'n cynrychioli'r gweithwyr gael ei gyfyngu i bump er mwyn cael 'cydbwysedd cyfartal rhwng y rhai sy'n cynrychioli'r cyflogwr ac aelodau'r cynlluniau (gweithwyr). Felly dyma'r aelodau sy'n cynrychioli'r cyflogwr: y Cyng. B Apsley; y Cyng. J B Hughes; y Cyng. J R Skelland; Clerc; Trysorydd. Byddai'r aelodau sy'n cynrychioli'r gweithwyr yn cynnwys dau gynrychiolydd o Undeb yr FBU, dau o Gymdeithas y Swyddogion Tân, ac un o Gymdeithas Arweinwyr Tân - Prospect. Nodwyd y byddai dirprwyon yn cael eu caniatáu ond nhw fyddai'n gyfrifol am gael eu hyfforddiant eu hunain i sicrhau eu bod yn gwybod y diweddaraf am faterion pensiynau.

Cyfnod swydd – cytunwyd y byddai'r aelodaeth yn cyd-fynd ag etholiadau'r cynghorau felly byddai cyfnod swydd yr aelodau presennol yn dod i ben ym mis Mai 2022.

4 ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

4.1 Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad i roi'r wybodaeth diweddaraf am faterion cyfredol yn ymwneud â Chynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

4.2 Cafodd yr aelodau wybod am weithgareddau'r cynlluniau pensiwn o fewn meysydd allweddol yn ymwneud â Chynllun(iau) Pensiwn y Diffoddwyr Tân yn chwarter 1 y flwyddyn ariannol gyfredol (01 Ebrill 2018 i 30 Mehefin 2018).

4.3 Nodwyd bod yr Ombwdsmon Pensiynau wrthi'n ystyried nifer o gwynion a ddaeth gan awdurdodau tân ac achub eraill. Mae'r cwynion yn ymwneud â delio â lwfansau penodol ar gyfer pensiwn (Norman vs Swydd Gaer). Bydd canlyniad yr achosion yn berthnasol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, ac mae'r mater yn cael ei fonitro'n ofalus.

4.4 Ffurfiwyd Grŵp Pensiwn ar gyfer Cymru gyfan i rannu gwybodaeth ac arbenigedd rhwng y tri awdurdod tân ac achub yng Nghymru. Mae'r grŵp yn cael ei arwain gan swyddog, a bydd yn cefnogi gwelliannau o ran cysondeb wrth gymhwyso rheoliadau cynlluniau.

4.5 Dosbarthwyd y datganiadau buddion blynyddol i'r holl aelodau (gan gynnwys aelodau gohiriedig). Mae'n rhy gynnar ar hyn o bryd i adrodd ynghylch unrhyw faterion a godwyd ynglŷn â chywirdeb y datganiadau neu eu cynnwys. Gwneir gwaith i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi, a nodir y manylion yn yr adroddiad nesaf i'r Bwrdd Pensiwn. Cytunwyd y byddai'n fuddiol i'r aelodau gael dogfen gwestiynau ac atebion i'w helpu i ddeall eu datganiadau buddion blynyddol gan mai eu cyfrifoldeb nhw yw canfod unrhyw wallau yn y datganiad; ochr yn ochr â hyn, awgrymwyd y byddai hefyd yn fuddiol i'r aelodau gael cyfeiriad e-bost pwrpasol.

4.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd, a bod y Pennaeth Cyllid yn llunio dogfen gwestiynau ac atebion i'w cynorthwyo i ddeall.**

5 Y GOFRESTR RISGIAU

5.1 Cyflwynodd y PSC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion y gofrestr risgiau ddiwygiedig yr oedd rhaid i'r aelodau ei chymeradwyo;

hefyd, wedi'u hatodi i'r adroddiad, roedd nodiadau cyfarwyddyd yn dangos y dull.

5.2 Nodwyd bod rhaid i'r Rheolwr Cynlluniau sefydlu a gweithredu rheolaethau mewnol er mwyn gallu gweinyddu a rheoli'r cynllun yn briodol, yn unol â'r rheolau a'r rheoliadau perthnasol. Mae'r gofrestr risgiau yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

5.3 Nodwyd bod yr aelodau, yn y cyfarfod diwethaf, wedi cytuno i gynnwys cam lliniaru, cyn ac ar ôl, ar gyfer pob risg ond cytunwyd bod yr aelodau wedi derbyn y diwyg presennol a gyflwynwyd.

5.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) mabwysiadu'r Gofrestr Risgiau ddiwygiedig ar gyfer 2018-19;**

**(ii) cytuno y bydd y Gofrestr yn cael chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod;**

**(iii) adolygu'r sgoriau ymhen blwyddyn, gan gynnwys y camau lliniaru hefyd.**

6 CRONFA BENSIWN DYFED – ADRODDIAD I ROI'R WYBODAETH DDIWEDDARAF

6.1 Cyflwynodd y PSC MacArthur yr adroddiad, a ddarparwyd gan Gronfa Bensiwn Dyfed, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â gweinyddu'r cynlluniau.

6.2 Mae cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn cael eu gweinyddu gan Gronfa Bensiwn Dyfed ar ran yr Awdurdod. Darparwyd yr adroddiad gan weinyddwr y cynlluniau i roi sicrwydd bod y cynllun yn cael ei weinyddu'n briodol. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Rheoliad GDPR (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data)
- E-gyfathrebu
- Data diwedd blwyddyn
- Cysoni GMP (Isafswm Pensiwn Gwarantedig)
- Adroddiadau Ansawdd Data
- Fy Mhensiwn Ar-lein
- Torri'r rheolau/Cwynion
- Llif gwaith.

6.3 O ran adroddiadau ansawdd data, nodwyd y byddai adborth gan yr aelodau yn gymorth i wella ansawdd y data. Eto, awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael canllaw i ddefnyddwyr a chwestiynau ac atebion ar y system 'fy mhensiwn ar-lein'.

6.4 Dywedodd y PST MacArthur ei bod yn ddyletswydd ar y Bwrdd Pensiwn Lleol i osod targedau perfformiad allweddol er mwyn monitro perfformiad; bydd hyn yn cael ei wneud gyda Chronfa Bensiwn Dyfed er mwyn sicrhau bod mesurau gweithgarwch yn cael eu seilio ar berfformiad.

6.5 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad a'r gwaith o ddatblygu dangosyddion perfformiad allweddol.**

7 CANLLAW GWYBODAETH

7.1 Cafodd yr aelodau wybod bod canllaw gwybodaeth wedi cael ei greu ar gyfer aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

7.2 **PENDERFYNWYD anfon y canllaw gwybodaeth ar e-bost i'r holl aelodau, a bod unrhyw adborth yn cael ei anfon ar e-bost at y Pennaeth Cyllid.**

8 ADRODDIAD DATGANIAD CYFATHREBU

8.1 Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno i ofyn i'r aelodau gymeradwyo Datganiad Cyfathrebu Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân. Pwrpas y ddogfen yw darparu datganiad clir a chynhwysfawr i roi sicrwydd y bydd GTAGC yn cyfathrebu'n glir ac amserol i'r holl randdeiliaid am Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân.

8.2 **PENDERFYNWYD mabwysiadu Datganiad Cyfathrebu 2018-19, a'i gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.**

9 GORCHYMYN CYNLLUN PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN (CYMRU) (DIWYGIO) 2014

9.1 Cafodd yr aelodau wybod bod Swyddfa Archwilio Cymru, wrth archwilio datganiad o gyfrifon yr Awdurdod, wedi canfod mater yn gysylltiedig ag ystyried lwfansau dros dro fel buddiant pensiwn ychwanegol; canfuwyd y mater hwn yn y tri ATA yng Nghymru felly mae pob ochr yn ceisio cyngor cyfreithiol. Gofynnwyd i'r aelodau nodi bod y mater yn effeithio ar nifer fach iawn o unigolion ac roedd nodyn wedi'i gynnwys yn y datganiad o gyfrifon, sy'n dweud y canlynol:

"Daeth Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2014 i rym ar 31 Rhagfyr 2014 a'r dyddiad pryd cafodd effaith oedd 1 Gorffennaf 2013. Roedd y Gorchymyn yn cynnwys newid y rheoliadau pensiwn i gyflwyno pwerau newydd i'r Awdurdod sicrhau bod rhai lwfansau ac enillion dros dro yn rhai pensiynadwy dan drefniant Budd Pensiwn Ychwanegol.

Daeth i'r amlwg yn ystod Tachwedd 2017 nad oedd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru wedi gweithredu'r Gorchymyn ac roedd lwfansau dros dro wedi cael eu trin yn unol â'r rheoliadau cynt. Ar 19 Mawrth 2018 fe wnaeth yr Awdurdod gymeradwyo adroddiad yn gweithredu gofynion y Gorchymyn, gan gytuno â'r cyrff cynrychioliadol ar y dyddiad pryd byddent yn cael effaith. Cytunwyd mai 1 Gorffennaf 2018 fyddai'r dyddiad hwnnw.

O ganlyniad i'r oedi wrth weithredu'r Gorchymyn, mae nifer fach o bobl sydd wedi ymddeol wedi cael setliadau pensiwn nad ydynt yn cyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol. Er bod yr Awdurdod wedi'i fodloni nad yw'r symiau'n rhai sylweddol, mae gwaith yn mynd yn ei flaen i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n weddill yn ymwneud â sail a chyllid y taliadau hyn ac i gytuno ar unrhyw gamau angenrheidiol i gywiro pethau."

9.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

10 Unrhyw Fater Arall

10.1 Nodwyd bod canlyniad prisiad GAD 2016 wedi dod i law, a nodwyd y canlynol:

"Mae canlyniadau dangosol y prisiadau cyfredol yn awgrymu'r canlynol:

- mae cyfraddau cyfraniad y cyflogwr dros y cyfnod rhwng Ebrill 2019 Mawrth 2023 yn debygol o fod yn uwch yn gyffredinol na'r cyfraddau cyfredol;
- mewn gwrthgyferbyniad, mae costau'r cynllun dan fecanwaith cap costau'r cyflogwr yn is yn gyffredinol na'r rhai a bennwyd yn y prisiau blaenorol, ac maent yn pwyntio at nifer o gynlluniau sy'n torri mecanwaith y cap costau am i lawr. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cyfrifol perthnasol gymryd camau i addasu buddion y cynllun neu strwythur cyfraniadau'r aelodau i gynyddu cost y cynllun, fe y mesurir dan fecanwaith y cap costau, yn ôl i'r lefel targed."

10.2 Bydd hyn cael ei drafod yn fanwl ym Mwrdd Cynghori'r Cynlluniau ar 16 Hydref, a bydd yr aelodau'n cael yr wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfarfod nesaf o'r Bwrdd Pensiwn Lleol.